**Edwina Hart MBE CStJ AC / AM**
**Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy, Science and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Holl Aelodau'r Cynulliad

07 Awst 2015

Annwyl Aelod

Yn ystod y cwestiynau yn y Cyfarfod Llawn ar 14 Gorffennaf pan ymatebais i gwestiwn William Powell, cyfeiriais at drafodaethau yr wyf wedi'u cael gyda fy ngrŵp Polisi Ynni ynghylch ynni gwynt ar y tir ac y byddwn, yn fuan, yn cyhoeddi cyfathrebiaeth ynghylch y problemau a sylwadau'r grŵp. Yr un diwrnod ag y gwnes i'r datganiad hwn, cynhaliodd y swyddogion , ar y cyd â'r diwydiant a rhanddeiliaid eraill, uwch-gynhadledd Ynni Gwynt ar y Tir Cymru er mwyn cael eu barn hwy ar y mater. Hefyd, ar 20 Gorffennaf, cynhaliodd yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd ddigwyddiad ymgynghori yng Nghaerdydd.

Mae'r sefyllfa ynghylch ynni gwynt ar y môr yn datblygu drwy'r amser fel y mae barn y diwydiant a phartïon eraill sy'n ymddiddori yn y maes. Rwy'n parhau i bwyso ar yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd i ymdrin â'r materion hyn mewn dull strategol sy'n cynnwys dyheadau'r gweinyddiaethau datganoledig mewn perthynas ag ynni adnewyddadwy.

Byddaf yn eich diweddaru eto ynghylch y mater hwn ddechrau'r tymor nesaf.

Edwina Hart

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*